**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref: LF CS 0063 15

Alun Ffred Jones
Cadeirydd
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Ionawr 2015

Annwyl Alun

**Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) - Canllawiau Statudol**

Yn Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1, gwnaed nifer o argymhellion gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd mewn perthynas â'r canllawiau statudol a fydd yn cael eu cyhoeddi dan Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rwy'n ysgrifennu at y Pwyllgor er mwyn rhoi amlinelliad o'r materion rwy'n cynnig y dylid ymdrin â hwy yn y canllawiau statudol sy'n ofynnol dan y Bil. Mae hyn yn adeiladu ar y Datganiad o Fwriad y Polisi a gyhoeddwyd wrth ochr y Bil adeg ei gyflwyno.

Yn Atodiad 1 ceir rhagolwg o'r hyn y bwriedir ei gynnwys yn y canllawiau, ac mae hynny'n ymateb i argymhellion 5, 7, 12, 15 a 22.

Rwyf am sicrhau ein bod yn cynnwys y cyrff cyhoeddus a fydd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd wrth ddatblygu'r canllawiau; gan fanteisio ar eu profiadau a rhoi cyfle iddynt ystyried y cyfleoedd a ddaw yn sgil y Bil. I ddechrau ar y broses cyn yr ymgynghoriad ffurfiol, rwy'n bwriadu cyhoeddi 'dogfen drafod' ar y canllawiau statudol. Bydd y ddogfen honno'n nodi'r hyn y bwriedir ei gynnwys yn y canllawiau, yn gofyn i randdeiliaid pa fath o ganllawiau sydd orau yn eu barn nhw, ac yn gofyn am dystiolaeth ac astudiaethau achos mewn perthynas â phrif elfennau saernïaeth y Bil. Anogir rhanddeiliaid i gynnal trafodaethau am y ddogfen hon am gyfnod o dri mis (rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2015). Byddwn yn defnyddio rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli er mwyn cysylltu â rhanddeiliaid ynghylch y gwaith hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.jeff.cuthbert@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled p*

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I helpu gyda'r broses, rwyf wedi gofyn i Peter Davies (y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy) gadeirio Grŵp Cynghori Technegol a fydd yn cyfrannu'n benodol ac yn ymarferol at ddatblygu'r canllawiau. Bydd yr aelodau'n dod yn bennaf o'r cyrff cyhoeddus fydd yn ddarostyngedig i'r Bil. Rwy'n teimlo y bydd y grŵp hwn yn caniatáu i ni fanteisio i'r eithaf ar y profiad helaeth sydd eisoes yn bodoli ar draws cyrff cyhoeddus.

Gobeithio bod y trosolwg hwn o gynnwys arfaethedig y canllawiau yn ddefnyddiol, ac yn ymateb i argymhellion penodol y Pwyllgor mewn perthynas â'r canllawiau statudol.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.jeff.cuthbert@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled p*

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Atodiad 1**
**Datganiad o Fwriad - y materion i'w cynnwys yng nghanllawiau statudol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Rhaid i'r canllawiau statudol helpu ac arwain y cyrff cyhoeddus a enwir ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wrth iddynt roi'r dyletswyddau sydd yn y Bil ar waith. Bwriedir cynnwys enghreifftiau o arfer da yn y canllawiau.

*Cyfrannu at y Nodau Llesiant*

Un o brif elfennau'r canllawiau fydd egluro sut y dylai cyrff cyhoeddus gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Bwriedir i hyn gynnwys y materion canlynol:

- *Deall swyddogaeth cyrff cyhoeddus* - Mae'r nodau llesiant yn mynegi pa fath o Gymru rydym yn dymuno ei gweld yn y dyfodol; bydd angen i'r canllawiau egluro perthnasedd y nodau llesiant i'r cyrff cyhoeddus a enwir a'u helpu i ddeall sut y gellid cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

- *Gosod amcanion llesiant* - Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol osod a chyhoeddi amcanion llesiant er mwyn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i gyflawni'r nodau llesiant. Bwriedir i'r canllawiau gynnwys y broses o osod amcanion llesiant, sut y dylid ystyried tystiolaeth wrth osod amcanion llesiant a pha wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y datganiad. Bydd y canllawiau'n dangos yn glir bod rhaid i'r amcanion llesiant fod yn rhan ganolog o brif gynllun pob sefydliad, er enghraifft mewn cynllun busnes neu gynllun corfforaethol.

- *Rhoi sylw i'r holl nodau llesiant* - Fel nodwyd yn argymhelliad 15, un o'r prif faterion a drafodwyd wrth ddatblygu'r Bil yw sut y dylai cyrff cyhoeddus penodol fynd i'r afael â gwrthdaro neu densiwn rhwng y nodau llesiant. Bwriedir darparu canllawiau ar y mater hwn, yn arbennig ynghylch defnyddio dulliau llywodraethu i helpu wrth osod amcanion llesiant er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfraniad corff cyhoeddus i gyflawni'r nodau llesiant.

- *Deall y prif heriau sy'n sail i'r nodau llesiant* - Mae'r nodau llesiant yn ymateb i heriau cynaliadwyedd tymor hir a nodwyd yng Nghymru. Bydd yn bwysig deall y rheiny er mwyn cyflawni'r nodau llesiant, felly bydd y canllawiau'n cynnwys cyngor ynghylch materion fel terfynau

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.jeff.cuthbert@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled p*

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

amgylcheddol, trechu tlodi, anghydraddoldeb iechyd a newid yn yr hinsawdd.

- *Cyflawni gyda phartneriaid* - Mae lle i'r canllawiau egluro sut y dylai'r amcanion llesiant, a'r camau i'w cymryd gan gyrff cyhoeddus penodol, ddylanwadu ar y sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan. (Argymhelliad 12).

*Gosod datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor*

Bydd y canllawiau'n egluro sut y dylai cyrff cyhoeddus penodol weithio mewn ffordd wahanol er mwyn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a gadael etifeddiaeth gynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol. Bwriedir i hyn gynnwys y materion canlynol:

- *Gwell ffyrdd o weithio* - Mae'r Bil yn gosod pum ffordd y dylai cyrff cyhoeddus weithio'n wahanol, neu ddulliau llywodraethu (tymor hir, integredig, ataliol, cydweithredol, cynhwysol). Dylai'r canllawiau egluro goblygiadau'r dulliau llywodraethu hyn i sefydliadau, a rhoi enghreifftiau o arfer da a'r dystiolaeth sy'n sylfaen i bob un ohonynt. Hefyd bwriedir i'r canllawiau egluro pryd y dylid defnyddio'r dulliau llywodraethu, mewn perthynas â chyrff cyhoeddus a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

- *Adrodd ynghylch cynnydd* - Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol adrodd yn flynyddol ynghylch cynnydd a wnaed wrth osod amcanion llesiant. Bwriedir darparu canllawiau ynghylch pa faterion y dylai corff cyhoeddus adrodd arnynt a sut y dylid gwneud hyn.

- *Argymhellion ar gyfer gwelliant* - Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wneud argymhellion i Weinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n cael eu rhestru yn y Bil. Bwriedir i'r canllawiau gynnwys sut y dylai corff cyhoeddus ymateb i argymhellion, ac egluro dan ba amgylchiadau y byddent yn cael eu heithrio rhag ymateb. (Argymhelliad 22)

*Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus*

Bydd angen canllawiau i osod manylion sefydlu a gweithredu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; bwriedir i hyn gynnwys y canlynol:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.jeff.cuthbert@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled p*

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynnal Asesiad Llesiant Lleol cyn paratoi Cynllun Llesiant Lleol. Bwriedir darparu canllawiau ar y ddwy broses, gan gynnwys esboniad o'r cysylltiadau rhwng amcanion sefydliadol a'r rhai sy'n cael eu hamlinellu mewn Cynllun Llesiant Lleol.

- Bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn sefydlu trefniadau adrodd a chraffu newydd mewn perthynas â Chynlluniau Llesiant Lleol. Bydd angen canllawiau i egluro'r trefniadau hynny.

- Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i bob Cyngor Cymuned sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 39 y Bil i gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion yn y cynllun llesiant lleol sy'n cael effaith yn ei ardal. Byddai'r canllawiau'n helpu i egluro'r camau y byddai'n rhaid i Gyngor Cymuned eu cymryd i gyflawni'r amcanion sydd yn y cynllun llesiant lleol.

Bydd y ddogfen drafod hefyd yn awgrymu nifer o gwestiynau er mwyn galluogi rhanddeiliaid i gyfrannu'n uniongyrchol i'r gwaith o ddrafftio'r canllawiau. Bydd hyn yn cynnwys cwestiynau ynghylch pa ganllawiau penodol sydd eu hangen mewn perthynas â'r meysydd uchod, ac a oes enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â'r meysydd hynny. Er mwyn i'r canllawiau fod yn briodol ar gyfer gwaith y cyrff cyhoeddus, mae'n bwysig iddynt fod yn gyfredol. Bydd hyn yn cynnwys egluro'r cysylltiad â darnau eraill o ddeddfwriaeth a gwaith y llywodraeth, fel Bil yr Amgylchedd a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. (Argymhelliad 7)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.jeff.cuthbert@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled p*